OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 3094

# Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) (Diwygio) 2008

**Rheoliad 5**

**5.** Yn lle rheoliad 5 (personau sy'n cael rhoi triniaethau a ganiateir) rhodder—

> "**5.**—(1) Ac eithrio'r triniaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), ni cheir rhoi unrhyw driniaeth, a ganiateir o dan reoliad 3 ac y mae Deddf Milfeddygon 1966(**1**) neu Orchymyn Milfeddygon (Esemptiadau) 1962(**2**) yn gymwys iddi, ac eithrio gan berson y caniateir iddo ei rhoi o dan y ddeddfwriaeth honno.
>
> (2) Caniateir tocio cynffonau neu ysbaddu moch naill ai gan filfeddygon yn unig neu, pan nad yw'r anifeiliaid yn hyn na 7 diwrnod oed, gan berson sy'n brofiadol yn y technegau cysylltiedig a naill ai'n berson sy'n gyfrifol am yr anifail neu'n berson a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan berson o'r fath i drin yr anifail.".

(**1**) 1966 p. 36; yr offerynnau perthnasol sy'n diwygio yw O.S. 1988/526, 1991/1412, 2002/1479, 2008/1824.
(**2**) O.S. 1962/2557; yr offerynnau perthnasol sy'n diwygio yw O.S. 1973/308, 1982/1627, 1983/6, 2002/1646.